**TEMPLED GRANT DYSGU PROFFESIYNOL/*PROFESSIONAL LEARNING GRANT TEMPLATE***

| | |
|---|---|
| **Ysgol/*School*** | **Crud Y Werin** |
| **Swm a ddyrannwyd/ *Allocated Sum*** | **£2,388** |

| | |
|---|---|
| **Amlinelliad o'r bwriadau/*Outline of intentions*** | Rhyddhau staff dysgu i ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r 12 Egwyddor Addysgegol, trwy fynychu hyfforddiant a chyd-weithio o fewn yr ysgol.<br>Rhyddhau staff dysgu i ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r addysgeg 'Mantell yr Arbenigwr', trwy fynychu hyfforddiant, ymweld ag ysgolion arloesi, arsylwi yn nosbarthiadau ei gilydd.<br>Rhyddhau staff dysgu i weld arferion da mewn ysgolion eraill ac i rannu canlyniadau treialu ar gyfer gweithredu egwyddorion 'ardaloedd' yn CA2, ac amser i gyd-weithio yn ol yn yr ysgol ar addasu'r amgylchedd ddysgu a'r ddarpariaeth.<br>Rhyddhau staff dysgu i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r safonau a sgiliau cymhwysedd digidol, trwy fynychu hyfforddiant a chyd-weithio gydag ysgol gyfagos. |

| | |
|---|---|
| **Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwylir/ *Expected Impact and Outcomes*** | ➢ Add/dysgu – Hyder a dealltwriaeth holl staff dysgu o ran y 12 EA a'r 4 diben yn llawer mwy eglur ac effaith y dealltwriaeth yma i'w weld yn treiddio i brofiadau'r disgyblion ar lawr y dosbarth.<br>➢ Arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar lyfrau yn amlygu fod y 12 egwyddor addysgegol yn cael eu cyflawni i safon dda neu well.<br>➢ Arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar lyfrau yn amlygu fod y 4 diben yn cael eu cyflawni i safon dda neu well.<br>➢ Bron bob un o ddisgyblion yr ysgol yn manteisio ar weithgareddau bywiog, ysgogol a difyr sydd yn eu cynorthwyo i ddatblygu i gyflawni'r 4 diben a'u paratoi yn effeithiol ar gyfer y cwricwlwm newydd.<br>➢ Pob aelod o staff yn hyderus wrth arbrofi ac ymchwilio i agwedd sydd angen ei ddatblygu ymhellach yn yr ysgol a'i gysylltu i ymchwil gweithredol.<br>➢ Dealltwriaeth a hyder holl staff dysgu yn cynyddu o ran addysgeg MyA.<br>➢ MyA yn cael ei ddefnyddio fel arf pwerus i yrru gwelliannau mewn meysydd amrywiol e.e. Cymhwysedd Digidol, Llythrennedd, Rhifedd, annibynoldeb disgyblion, 4 Diben a 12 EA.<br>➢ Bydd canfyddiadau teithiau dysgu yn mynegi fod annibynoldeb dysgwyr CA2 yn gwneud cynnydd buddiol iawn o un tymor i'r llall.<br>➢ Bydd canfyddiadau teithiau dysgu yn mynegi fod bron pob un disgybl yn llwyddo i drafod eu dysgu yn hyderus; yn llwyddo i weithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb campus o'u dysgu; wedi ymroi'n fywiog i'r tasgau ac yn trafod eu gwaith yn llawn brwdfrydedd.<br>➢ Bydd pob aelod o'r staff dysgu yn derbyn hyfforddiant ac arweiniad gwerthfawr er mwyn eu harfogi i gyflwyno'r Fframwaith CD yn fedrus, gyda bron pob aelod o'r staff dysgu yn mynegi cynnydd da yn eu hyder personol i gefnogi cyflwyno'r Fframwaith.<br>➢ Bydd cyfleoedd medrus wedi eu cynllunio a'u darparu ar gyfer ymateb i ofynion pob agwedd o'r FfCD mewn blwyddyn addysgol.<br>➢ Bydd asesiadau yn dangos fod bron pob disgybl yn cyflawni'r sgiliau Cymhwysedd Digidol i safon clodwiw, yn bynciol a thrawsgwricwlaidd. |

**Gwerthuso/*Evaluation***

| | |
|---|---|
| **Beth sydd wedi gweithio'n dda/*What worked well*** | |
| **Yr Effaith a'r Canlyniadau/ *Impact and Outcomes*** | |
| **Y Cam Nesaf/*Next stage*** | |